# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 14 Chwefror 2013 i'w hateb ar 19 Chwefror 2013

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am adroddiad GMB a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cadarnhau bod 111 o weithwyr Cymru ar restr wahardd y Gymdeithas Ymgynghori ar gyfer y diwydiant adeiladu. OAQ(4)0902(FM)

**2. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i gefnogi datblygu economaidd yng Nghymru. OAQ(4)0917(FM)

**3. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn monitro Blas am Oes. OAQ(4)0898(FM)

**4. Nick Ramsay (Mynwy):** Beth mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i hybu addysgu cerddoriaeth ymhlith plant oedran ysgol. OAQ(4)0904(FM)

**5. Llyr Huws Gruffydd (Gogledd Cymru):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o bwysigrwydd cysylltiadau band eang i economi Cymru. OAQ(4)0914(FM)**W**

**6. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei ymweliad diweddar â San Francisco. OAQ(4)0907(FM)

**7. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i wella lles anifeiliaid yn Nyffryn Clwyd. OAQ(4)0908(FM)

**8. Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad yn amlinellu'r manteision i Gymru a fydd yn deillio o'i ymweliad diweddar â San Francisco. OAQ(4)0906(FM)

**9. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn monitro sut y caiff argymhellion i adroddiadau pwyllgorau'r Cynulliad sydd wedi'u derbyn eu rhoi ar waith. OAQ(4)0913(FM)**W**

**10. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith y system terfyn cyflymder newidiol rhwng cyffordd 24 a chyffordd 28 yr M4 ar lif y traffig. OAQ(4)0909(FM)

**11. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog roi manylion ynghylch y meysydd y mae Uned Gyflawni'r Prif Weinidog yn eu hasesu ar hyn o bryd, ac y bydd yr Uned yn eu hasesu eleni. OAQ(4)0911(FM)

**12. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cymorth sydd ar gael i gyn-filwyr a phersonél y gwasanaethau brys sydd ag Anhwylder Straen Wedi Trawma yng Nghymru. OAQ(4)0916(FM)

**13. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr effaith y mae newidiadau i drefniadau dyrannu'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn debygol o'i chael ar Gymru. OAQ(4)0910(FM)

**14. Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei gyfarfod diweddaraf â Chadeiryddion Byrddau Iechyd Lleol. OAQ(4)0901(FM)**W**

**15. Ken Skates (De Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â salwch meddwl yn 2013. OAQ(4)0903(FM)